Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach
*Wales' Leading Business Organisation*
*Mudiad Busnes Blaenllaw Cymru*



# *FSB Cymru: Entrepreneuriaeth ymysg Ieuenctid*

# Cynnwys


Cydnabyddiaeth 2

Rhagair 3

1. Cyflwyniad 4

1.1 Pwyntiau allweddol a godwyd 5

1.2 Dulliau ac ymagwedd 6

2. Canfyddiadau'r Gwaith Maes 7

2.1 Beth yw ystyr y term 'entrepreneur'? 7

2.2 Dyheadau i ddechrau busnes 8

2.3 Beth sydd ei angen er mwyn bod yn entrepreneur / perchennog busnes? 10

2.4 Canfyddiad o rwystrau i entrepreneuriaeth 11

2.5 Annog ethos entrepreneuraidd 14

3. Casgliadau 16

Nodiadau 18

# *Cydnabyddiaeth*

Rydym yn ddiolchgar iawn i Arad Research am gynnal y gwaith ymchwil pwysig hwn i entrepreneuriaeth ymysg ieuenctid yng Nghymru, gan helpu i sicrhau bod yr FSB yn cyfrannu at y drafodaeth gyda gwaith ymchwil yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf bosibl. Rhaid i ni hefyd estyn diolch i'r 214 o fyfyrwyr ysgol a phrifysgol a gyfrannodd at yr astudiaeth; ni fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl heb eu cyfraniad amrywiol a heriol hwy. Mae ffyniant economaidd Cymru yn dibynnu ar feithrin diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru ac rydym yn gobeithio y bydd yr astudiaeth hon yn rhoi darlun i ni o'r rhwystrau sy'n wynebu ein hentrepreneuriaid ifanc.

arad RESEARCH

# Rhagair

Mae entrepreneuriaeth ymysg ieuenctid wedi bod yn destun trafod helaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Un o'r rhesymau dros hyn yw bod astudiaeth y DU-gyfan, Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM), wedi dangos bod lefelau entrepreneuriaeth, yn ei chyfnod cynnar, ymysg pobl ifanc Cymru wedi treblu yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o arwyddocaol o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, lle mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymysg pobl ifanc yn dal i fod yn is o lawer.

Mae sylwebwyr wedi bod yn barod iawn i ddweud, a da hynny, bod yna gydberthynas rhwng y lefelau hyn â gweithgareddau Llywodraethau blaenorol Cymru yn y maes hwn a'r cynnydd amlwg yn lefelau entrepreneuriaeth cyfnod cynnar. Nid oes amheuaeth bod Cynllun Gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (Cynllun SEI) wedi llwyddo i dynnu sylw pobl ifanc at entrepreneuriaeth. Mae hefyd wedi'u grymuso ar wahanol gyfnodau o'u haddysg, i ystyried entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfaol.

Fodd bynnag, er gwaethaf y llwyddiannau amlwg hyn, mae gan Gymru gyfradd 'geni busnesau' isel o gymharu â rhannau eraill o'r DU a byddem yn croesawu addysg entrepreneuriaeth effeithiol a fyddai'n arwain yn y pen draw at greu busnesau newydd.

Rydym yn credu'n gryf mai 'dysgu drwy wneud' yw'r ffordd orau o fynd ati i addysgu entrepreneuriaeth. Mae angen mwy o entrepreneuriaid ar Gymru a dyletswydd y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau yw sicrhau bod diwylliant o entrepreneuriaeth yn cael ei blannu ym meddyliau pobl ifanc wrth iddynt droedio'u llwybrau addysgol.

**Janet Jones**
Cadeirydd Uned Polisi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach

*"Rydym yn credu'n gryf mai 'dysgu drwy wneud' yw'r ffordd orau o fynd ati i addysgu entrepreneuriaeth."*

# 1. Cyflwyniad

Ers gwasgfa gredyd 2007 a'r dirwasgiad dwbl a'i dilynodd, mae Cymru wedi gweld gostyngiad yng nghyfradd geni busnesau cofrestredig newydd a chynnydd yng nghyfradd marwolaeth busnesau (Bwletin Ystadegol 2012)[1]. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad pwyllog yng nghyfanswm y busnesau cofrestredig yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, sydd wedi mynd law yn llaw â lleihad mewn hyder yn y dyfodol economaidd ac yn rhagolygon busnesau ymysg busnesau yng Nghymru (FSB 2012)[2].

Serch hyn, mae adroddiad diweddar gan Monitor Entrepreneuriaeth y Byd[3] (GEM) yn awgrymu bod gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar[4] ymysg pobl ifanc yng Nghymru rhwng 18 – 29 oed wedi cynyddu'n bwyllog rhwng 2002 a 2011. Roedd gweithgarwch entrepreneuraidd yn y grŵp oedran hwn yng Nghymru yn arbennig o uchel o'i gymharu ag oedolion ifanc yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystod yr un cyfnod.
Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu ffocws Llywodraeth Cymru ar bolisïau entrepreneuriaeth a dargedwyd at bobl ifanc yn ystod yr un cyfnod.

Mae canfyddiadau'r adroddiad GEM yn awgrymu bod yna ddiwylliant cymharol gryf o entrepreneuriaeth wedi'i feithrin ymysg oedolion ifanc yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf. Er mwyn asesu p'un a yw'r diwylliant hwn yn debygol o barhau yn y dyfodol ai peidio, aeth FSB Cymru ati i gomisiynu Arad i gynnal astudiaeth ymchwil fer i gasglu safbwyntiau sampl bach o bobl ifanc, sydd ar hyn o bryd mewn addysg lawn-amser, i asesu eu dyheadau i fod yn entrepreneuriaid ac i ddechrau eu busnesau eu hunain yn y dyfodol.

Mae'r canfyddiadau yn rhoi awgrym o agweddau cyfredol tuag at entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r rheiny a gyflwynwyd mewn adroddiadau arbennig diweddar y GEM[5]. Gan dynnu ar y ffynonellau hyn o wybodaeth, mae'r adroddiad yn dod i gasgliadau ychwanegol yn ymwneud â meysydd o gefnogaeth a ffocws a allai annog pobl ifanc i ystyried dechrau eu busnesau eu hunain yn y dyfodol.

## 1.1 Pwyntiau allweddol a godwyd

- Roedd y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn cysylltu'r term entrepreneur neu entrepreneuriaeth bron yn ddiwahân â phobl enwog megis yr Arglwydd Alan Sugar neu unigolion llwyddiannus, cefnog neu arloesol eraill.

- Roedd dyheadau am ddechrau busnes ar ryw adeg yn y dyfodol ar eu huchaf ymysg y grwpiau oedran ifancaf (11 i 12 mlwydd oed) ac ar eu hisaf ymysg y grwpiau oedran hŷn (17 i 21 mlwydd oed).

- Y gallu i gael mynediad at arian a'i reoli ynghyd â sgiliau cyfathrebu da oedd y prif nodweddion yr ystyriwyd bod eu hangen er mwyn dechrau a rhedeg eich busnes eich hun.

- Roedd bod yn annibynnol rhag cyflogaeth a'r cyfle i reoli yn cael eu hystyried fel prif fanteision entrepreneuriaeth. Law yn llaw â'r manteision hyn, roedd barn bod entrepreneuriaeth yn cynnig cyfle i wneud symiau cymharol fawr o arian.

- Y prif rwystr i entrepreneuriaeth oedd y risgiau ariannol a oedd yn gysylltiedig â dechrau busnes. Law yn llaw â hyn, roedd yna ofn cyffredinol o fethu ymysg y rheiny a gafodd eu cyfweld a diffyg hyder yn yr hinsawdd economaidd gyfredol a'r dyfodol. Dywedodd rhai na fyddent yn gwybod pa gamau cyntaf i'w cymryd er mwyn dechrau eu busnes eu hunain a bod hyn ynddo'i hun yn rhwystr.

- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld a oedd eisoes wedi cael rhyw fath o addysg ar fentergarwch wedi mwynhau'r profiad. Dywedodd rhai o'r grwpiau oedran hŷn y byddent yn croesawu enghreifftiau neu brofiad mwy 'real' o entrepreneuriaeth.

- Mae diwylliant o entrepreneuriaeth yn bodoli ymysg y sampl o bobl ifanc a gafodd eu cyfweld ledled Cymru, er bod yr agwedd hon yn cael ei herio gan eu barn negyddol am yr hinsawdd economaidd gyfredol. Ymddengys o ganfyddiadau'r astudiaeth hon y byddai cefnogaeth bellach ar ffurf addysg busnes a mentergarwch ymarferol wedi'i thargedu tuag at garfannau hŷn ac iau mewn ysgolion a cholegau yn fanteisiol.

- Mae ffocws pellach ar entrepreneuriaeth neu hunangyflogaeth o fewn sesiynau gyrfaoedd wedi'i dargedu at bobl ifanc hefyd yn debygol o hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru.

## 1.2 Dulliau ac ymagwedd

Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar drafodaethau a gynhaliwyd gyda disgyblion blwyddyn 7, 11 a 13 a grŵp o fyfyrwyr prifysgol, a hynny yn ystod mis Medi 2012. Gofynnwyd i'r cyfweleion beth oedd y term 'entrepreneuriaeth' yn ei olygu iddyn nhw a gofynnwyd iddynt enwi entrepreneuriaid yr oeddent yn ymwybodol ohonynt. Gofynnwyd i'r bobl ifanc hefyd p'un a oedd dechrau busnes yn rhywbeth y byddent yn ei ystyried yn y dyfodol. Dilynwyd hyn gan gwestiynau am ba sgiliau a nodweddion y byddai eu hangen, yn eu barn hwy, er mwyn bod yn entrepreneur, yn ogystal â pha gyfleoedd a heriau a oedd yn gysylltiedig â dechrau busnes newydd.

Cafodd disgyblion eu cyfweld o'r ysgolion canlynol

– Ysgol Y Preseli
– Ysgol Gyfun Cymer Rhondda
– Bryn Celynog
– Ysgol Gyfun Treorci
– Cwm Rhymni
– St John Baptist
– Ysgol Gyfun Llanhari

Casglwyd barn cyfanswm o 214 o ddisgyblion: 72 ohonynt yn ddisgyblion blwyddyn 7 neu 8, 92 ohonynt yn ddisgyblion blwyddyn 10 neu 11, a 44 o flwyddyn 13. Cynhaliwyd hefyd drafodaeth grŵp ffocws gyda chwech o fyfyrwyr addysg uwch o Brifysgol Caerdydd.

# *2. Canfyddiadau'r gwaith maes*

Mae'r adrannau dilynol yn amlinellu'r safbwyntiau a gasglwyd oddi wrth y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld. Cânt eu cyflwyno dan y themâu cyffredin a ddefnyddiwyd yn yr holl drafodaethau â'r holl grwpiau oedran. Mae amrywiadau yn yr ymatebion yn cael eu hamlygu er mwyn amlinellu gwahaniaeth mewn agweddau ymysg y gwahanol grwpiau oedran.

## *2.1 Beth yw ystyr y term 'entrepreneur'?*

Gofynnwyd i ddisgyblion yr holl ysgolion yn y lle cyntaf gyda beth neu bwy yr oeddent yn cysylltu'r termau 'entrepreneur' neu 'entrepreneuriaeth'. Nid oedd rhai yn gyfarwydd â'r term o gwbl ond roedd y mwyafrif o bob grŵp oedran wedi ymateb gan nodi naill ai'r Arglwydd Alan Sugar neu Theo Paphitis a'r 'Dreigiau' eraill o'r gyfres deledu 'Dragon's Den'. Ymysg y bobl busnes lwyddiannus adnabyddus eraill a nodwyd roedd Bill Gates, Mark Zuckerberg a Sir Richard Branson.

Pan ofynnwyd iddynt a allent feddwl am entrepreneuriaid lleol, roedd y rhan fwyaf o grwpiau yn ei chael hi'n anodd cynnig unrhyw awgrymiadau. O'u holi ymhellach, fodd bynnag, nododd llawer y byddai modd cyfrif eu rhieni, aelodau o'u teulu neu ffrindiau a oedd wedi dechrau eu busnesau eu hunain, a bod modd disgrifio'r rhain felly fel 'entrepreneurs'. Wrth i'r disgyblion ystyried entrepreneuriaeth yn y cyd-destun ehangach hwn, roedd modd iddynt gynnig esiamplau o entrepreneuriaid mewn ystod eang o leoliadau a sectorau.

Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oedd y bobl ifanc yn cysylltu pobl fusnes leol, unig fasnachwyr a cheidwaid siopau annibynnol ac ati â'r term 'entrepreneur' yn yr un modd ag y byddent yn cysylltu pobl fusnes adnabyddus yr oeddent wedi'u gweld ar y teledu.

Roedd ambell unigolyn o'r grwpiau oedran hŷn (yn bennaf disgyblion blwyddyn 13 a myfyrwyr AU) yn cwestiynu a oedd y term 'entrepreneur' yn berthnasol i berchnogion busnesau lleol. I'r unigolion hyn, roedd y term yn gysylltiedig â phobl fusnes arbennig o gefnog, llwyddiannus neu arloesol.

Roedd y myfyrwyr addysg uwch yn gweld dechrau busnes newydd fel dewis arall i'w gymryd dim ond pe na bai modd iddynt ddod o hyd i gyflogaeth.

***"Rydych chi'n clywed mwy am y bobl lwyddiannus – rhai enwog. Dydych chi ddim yn clywed llawer am bobl fusnes leol."***

***(disgybl Blwyddyn 11)***

Mae canfyddiadau GEM hefyd yn nodi bod busnesau newydd a sefydlwyd o ganlyniad i reidrwydd wedi cynyddu yn ystod cyfnod y dirwasgiad. Fodd bynnag, mae ymchwil y GEM hefyd yn dod i'r casgliad bod entrepreneuriaeth o'r fath yn cynrychioli cyfran gymharol fach (15%) o'r holl fusnesau newydd yn y DU a bod y prif ffocws yn parhau ar fusnesau newydd a ddechreuwyd wrth i rywun achub ar gyfle.

Ymddengys bod y term 'entrepreneur' yn gysylltiedig ag ystrydebau penodol i lawer o bobl ifanc.

Roedd cysylltu entrepreneur â rhywun llym, caled ac eithaf annymunol hefyd yn gyffredin ymysg llawer o fyfyrwyr blwyddyn 13. Ar ben hyn, roedd y rhain yn nodweddion nad oedd yn apelio i'r rheiny a fynegodd hyn ac nid oedd y rhain yn ansoddeiriau a ddisgrifiai rhywun y byddai'r disgyblion yn dymuno ei efelychu.

***"Mae fy ewythr yn blastrwr, ond dwi ddim yn meddwl amdano fel entrepreneur."***

***(disgybl Blwyddyn 11)***

## *2.2 Dyheadau i ddechrau busnes*

Gofynnwyd i'r holl ddisgyblion a myfyrwyr a oeddent wedi ystyried neu a oedd ganddynt ddyhead i ddechrau eu busnes eu hunain yn y dyfodol. Mae crynodeb o'r canlyniadau cyffredinol wedi'i hamlinellu yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1 – Disgyblion a oedd wedi ystyried dechrau eu busnes eu hun yn y dyfodol.**

| Ysgol | Bl 7 / 8 | Bl 10 / 11 | Bl 13 | AU |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Preseli | 4 allan o 14 | 0 allan o 10 | 1 allan o 12 | |
| Ysgol Gyfun Cymer Rhondda | | 5 allan o 22 | 2 allan o 5 | |
| Bryn Celynog | | 12 allan o 50 (trafodaethau unigol a grwpiau) | | |
| Ysgol Gyfun Treorci | 11 allan o 27 | | 1 allan o 6* | |
| Cwm Rhymni | 3 allan o 8 | 3 allan o 10 | 1 allan o 7 | |
| St John Baptist | 6 allan o 23 | | 3 allan o 15 | |
| Prifysgol Caerdydd | | | | 3 allan o 6 |
| CYFANSWM** | 33.3% | 22% | 18% | |

* Nododd 2 o ddisgyblion blwyddyn 13 yn Nhreorci eu bod wedi ystyried dechrau eu busnes eu hunain ond nad oeddent yn credu bellach bod hyn yn opsiwn

** Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar sampl bach ac ni ellir eu hystyried yn ystadegol sylweddol

***"Mae entrepreneur yn rhywun sydd wedi dyfeisio cynnyrch newydd ac yna'n ennill ei ffortiwn drwy ei werthu."***

***(disgybl Blwyddyn 13)***

Roedd brwdfrydedd neu ddyheadau i ddechrau busnes ar eu huchaf ymysg y carfannau ifancaf (blwyddyn 7 ac 8) a gafodd eu cyfweld. Mae'r canfyddiadau

a amlinellir yn nhabl 1 uchod yn dangos bod llai o ddisgyblion blwyddyn 11 a 13 yn ystyried dechrau eu busnes eu hunain o gymharu â disgyblion blwyddyn 7 ac 8. Mae'r canfyddiadau hyn yn cynrychioli sampl bach o ddisgyblion ysgol yng Nghymru ac felly ni ellir dod i unrhyw gasgliadau cadarn ar eu sail. Fodd bynnag, maent yn awgrymu bod brwdfrydedd dros ddechrau busnes newydd yn gostwng wrth i ddisgyblion fynd yn eu blaen drwy'r ysgol ac mae'n bosibl y dylid edrych ymhellach ar hyn.

*"Mae dechrau busnes yn rhywbeth i bobl sy'n methu â chael swyddi mewn cwmnïau mawr."*

*(myfyriwr AU)*

Fel y nodwyd cyn hyn, canfu'r ymchwil rai agweddau cadarnhaol iawn tuag at entrepreneuriaeth ymysg y carfannau ifancaf. Roedd gan rai disgyblion blwyddyn 7 syniadau busnes pendant y byddent am fynd ar eu trywydd yn y dyfodol, tra bod eraill yn hoffi'r syniad o redeg eu busnes eu hunain. Ymysg yr agweddau o ddechrau eu busnes eu hunain a apeliai at y disgyblion ifancaf hyn, roedd gweithio i'w hunain, cael rhyddid i wneud yr hyn yr oedd arnyn nhw eisiau ei wneud a chyfle i wneud arian a theithio.

Roedd disgyblion blwyddyn 11 hefyd yn cydnabod manteision dechrau eich busnes eich hun.

Dywedodd un disgybl blwyddyn 11 ei bod yn ystyried sefydlu ei siop trin gwallt ei hun a'i bod wedi'i hysbrydoli gan berchennog y busnes y mae hi wrthi'n dilyn cwrs trin gwallt gyda hi. Amlinellodd disgybl blwyddyn 11 arall bod ganddi uchelgais i sefydlu ei busnes ffotograffiaeth ei hun. Unwaith eto, roedd ei syniad yn deillio o'i diddordeb mewn ffotograffiaeth a phrofiad gwaith gyda ffotograffydd lleol.

Nid oedd yr un o'r ddwy wedi ystyried sefydlu busnes cyn eu profiad gwaith. Mae enghreifftiau o'r fath yn awgrymu bod pobl fusnes leol yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar ddyheadau pobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain.

*"Mae'r gair entrepreneur yn gwneud i fi feddwl am rywun difrifol mewn siwt yn cario 'briefcase'*

*(disgybl Blwyddyn 13)*

Ar y llaw arall, mae rhai canfyddiadau yn awgrymu y gall profiadau negyddol o'r byd gwaith gael effaith andwyol ar ddyheadau entrepreneuraidd.
Cafwyd un enghraifft o hyn gan fyfyriwr blwyddyn 11 a aeth ar leoliad profiad gwaith mewn garej ceir. Cyn y lleoliad profiad gwaith, roedd ganddo ddyhead i weithio fel peiriannydd ceir ac efallai agor ei garej ei hun yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd wedi mwynhau'r profiad gwaith ac o ganlyniad, nid oedd yn ei ystyried bellach fel opsiwn gyrfa.

Cafwyd mwy o enghreifftiau o brofiadau bywyd go iawn yn cael effaith andwyol ar ddyheadau i ddechrau busnes gan grŵp o fyfyrwyr blwyddyn 10. Dywedodd y grŵp nad oedd ganddynt unrhyw ddyheadau i ddechrau eu busnesau eu hunain er bod rhieni neu aelodau eraill o deuluoedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhedeg eu busnesau eu hunain.

Gallai'r grŵp werthfawrogi cyfleoedd neu fanteision posibl a oedd yn gysylltiedig â rhedeg eu busnesau eu hunain, gan gynnwys teimlad o gyflawniad o ddechrau rhywbeth newydd, bod yn fos ar eu hunain, gwneud pethau eu ffordd eu hunain a gallu gweithio oriau hyblyg pe baent yn dymuno. Fodd bynnag, roeddent o'r farn bod mwy o rwystrau neu anfanteision (nodir enghreifftiau o'r rhain yn adran 2.4 isod) na manteision.

Mae'r enghreifftiau a nodir uchod yn awgrymu bod cyswllt â'r byd mentergarwch go iawn yn galluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau deallus am b'un a yw entrepreneuriaeth yn opsiwn realistig ai peidio.

Roedd dyheadau am ddechrau busnes ar eu hisaf ymysg y grwpiau o ddisgyblion chweched dosbarth (blwyddyn 13) a gafodd eu cyfweld. Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion o'r grŵp oedran hwn yn cysylltu dechrau busnes â galwedigaethau megis adeiladu, gwaith coed neu drin gwallt: galwedigaethau nad oedd gan lawer ohonynt unrhyw ddiddordeb mewn gyrfa ynddynt. Yn hytrach, roedd gan lawer ohonynt ddyheadau i fod yn bobl broffesiynol mewn meysydd megis addysg, meddygaeth, peirianyddiaeth a'r gyfraith. Yn eu barn hwy, nid oedd y gyrfaoedd hyn yn arwain at gyfleoedd neu ddewis i ddechrau eu busnes eu hunain.

O'u holi ymhellach, cydnabu rhai bod yna gyfle i ddechrau eu busnes eu hunain yn y meysydd hyn yn y dyfodol, ond roeddent o'r farn na fyddai hyn yn bosibl hyd nes iddynt feithrin digon o brofiad yn eu dewis gyrfa. Nid oedd y sefyllfa honno'n apelio rhyw lawer at eraill yn y grŵp. Byddai rhai yn gwerthfawrogi gweld enghreifftiau o bobl a oedd wedi sefydlu busnes yn y maes a oedd o ddiddordeb iddynt (gweler adran 2.5).

Ymysg y grŵp bach (chwech o unigolion) o fyfyrwyr addysg uwch a gafodd eu cyfweld, dywedodd tri ohonynt y byddent yn ystyried sefydlu eu busnes eu hunain ar ôl graddio; yn wir, roedd un ohonynt eisoes wedi dechrau busnes meddalwedd bach. Fodd bynnag, yn eu barn hwy, rhywbeth i'w wneud pe bai'n rhaid fyddai hyn, yn hytrach nag o ddewis. Roedd y rheiny a oedd wedi ystyried sefydlu eu busnes eu hunain yn gweld hyn fel ffordd o feithrin sgiliau cyflogadwyedd a magu profiad yn eu dewis maes. Yn hyn o beth, roeddent yn ystyried bod hunangyflogaeth yn llwybr amgen, byrdymor, neu'n garreg sarn tuag at ennill cyflogaeth yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf a gafodd eu cyfweld a amlinellodd nad oedd ganddynt unrhyw ddyheadau o ddechrau eu busnes eu hunain yn y dyfodol yn seilio'r penderfyniad hwn ar eu canfyddiad o'r rhwystrau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny (gweler adran 2.4). Fodd bynnag, i lawer, roedd yn rhywbeth nad oeddent wedi'i ystyried yn opsiwn. Roedd hyn yn gyson ar draws yr holl grwpiau oedran, gan awgrymu y gellid gwneud mwy i gyflwyno'r syniad o entrepreneuriaeth i bobl ifanc fel opsiwn gyrfa i'w ystyried.

Roedd myfyrwyr AU nad oeddent yn ystyried entrepreneuriaeth fel opsiwn hefyd yn dweud bod diffyg syniadau, yr angen am fuddsoddiad cychwynnol a'r anhawster o ddechrau busnes yn rhesymau i beidio â dilyn y llwybr hwn.

## 2.3 Beth sydd ei angen er mwyn bod yn entrepreneur / berchennog busnes?

Gofynnwyd i'r holl grwpiau oedran pa sgiliau a nodweddion oedd yn angenrheidiol er mwyn dechrau a rhedeg busnes. Mae'r ymatebion mwyaf cyffredin a awgrymwyd wedi'u crynhoi yn y cymylau geiriau isod.
Mae'r cymylau geiriau yn dangos y geiriau a'r termau a ddefnyddiwyd fwyaf aml gan bob grŵp oedran.

> *"Mae dechrau eich busnes eich hun yn rhoi cyfle i chi ddewis pwy sy'n gweithio gyda chi." "Gallwch greu swyddi a chefnogi eich cymuned leol."*
>
> *(disgybl Blwyddyn 7)*

> *"Dydych chi ddim yn ddibynnol ar bobl eraill am waith. Rydych chi yn rheoli pethau."*
>
> *(disgybl Blwyddyn 11)*

Roedd pob grŵp wedi cyfeirio at arian. Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau o'r farn bod angen buddsoddiad cychwynnol ar fusnesau newydd a bod angen i entrepreneuriaid a pherchnogion busnesau llwyddiannus fod yn fedrus wrth reoli arian. Roedd hyn yn gysylltiedig hefyd â'r sylwadau a wnaed gan y grwpiau oedran iau, sef bod angen sgiliau mathemateg da arnynt, a'r sylwadau gan y grwpiau hŷn bod angen iddynt feddu ar sgiliau rheoli a chyfrifyddu da.

Roedd y gallu i gyfathrebu'n effeithiol hefyd yn cael ei ystyried yn sgil angenrheidiol ar gyfer entrepreneur llwyddiannus. Yn yr un ffordd â'r term 'arian', cafodd y term 'cyfathrebu' ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr holl grwpiau oedran a gafodd eu cyfweld. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i gyfathrebu'n effeithiol â darpar gwsmeriaid er mwyn 'gwerthu'ch hun a'ch cynhyrchion'. Roedd sgiliau cyfathrebu hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn dangos awdurdod o fewn y busnes.

Nododd pob grŵp hefyd yr angen iddynt gael syniad neu gynnyrch da a 'bod yn dda yn yr hyn y maent yn ei wneud'. Cafodd termau megis 'penderfynol' a 'disgybledig' eu defnyddio amlycaf ymysg y grwpiau oedran hŷn, gan adlewyrchu'r ddelwedd o'r entrepreneur llym, caled yn ei siwt.

*"Mae'n anodd cael profiad gyda chwmni mawr felly mae'n ffordd dda o fagu profiad a helpu gyda'ch cyflogadwyedd yn y dyfodol."*

*(myfyrwyr AU)*

## 2.4 Canfyddiadau o rwystrau i entrepreneuriaeth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr blwyddyn 13 mai'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â dechrau eu busnes eu hunain oedd y prif rwystr neu her a fyddai'n eu hatal rhag dechrau eu busnes eu hunain. Ofn methu oedd yr her neu'r rhwystr mwyaf cyffredin ar draws yr holl grwpiau oedran.

Roedd lleoliad hefyd yn cael ei ystyried yn rhwystr i entrepreneuriaeth ymysg rhai o'r grwpiau blwyddyn 13 a gafodd eu cyfweld. Roedd rhai o'r farn bod byw mewn ardaloedd gwledig o Gymru yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddechrau busnes. Er eu bod yn cydnabod y gallai fod yn bosibl i ddechrau busnes bach yng nghefn gwlad, yn eu barn hwy, byddai angen i fusnesau mawr, llwyddiannus gael eu lleoli mewn dinasoedd mawr. Roedd lleoliad agos i sail gwsmeriaid ddigon mawr hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig er mwyn sefydlu busnes llwyddiannus, ac yn eu barn hwy, dim ond drwy fod mewn ardal boblog y byddai modd gwneud hyn, er enghraifft Llundain, neu Gaerdydd o leiaf.


Mae'r problemau hyder hyn yn gyson â rhai o ganfyddiadau ymchwil GEM sy'n nodi bod cyfran is o bobl nad ydynt yn entrepreneurs yn y DU (o gymharu â Ffrainc, yr Almaen ac UDA er enghraifft) yn credu bod cyfleodd da i ddechrau busnes yn eu hardaloedd lleol. Mae'r gyfran yn is fyth yng Nghymru a'r isaf ond un yn y DU (gweler tabl 2 ar dudalen 13).

Mae'r ofn hwn a'r ofn o fethu, fel ffactor sy'n atal pobl rhag dechrau busnes, yn gymharol uchel yng Nghymru o gymharu â Lloegr a'r Alban. Dim ond yng Ngogledd Iwerddon y ceir lefelau uwch. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod hyder i ddechrau busnes newydd yn gymharol isel ymysg oedolion oedran gweithio yng Nghymru, ac efallai bod hyn yn cael ei adlewyrchu ym marn y bobl ifanc.


*"Mae ar bobl ofn methu. Beth pe na bai pethau'n mynd yn dda a byddech chi'n mynd yn fethdalwr?"*

*(myfyrwyr Blwyddyn 12)*


## Cwmwl geiriau blwyddyn 7/8




## Cwmwl geiriau blwyddyn 10/11




## Cwmwl geiriau blwyddyn 12/13



**Tabl 2: Canfyddiad o entrepreneuriaeth ymysg oedolion actif nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghenhedloedd y DU**

| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Y DU |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae yna gyfleoedd da i ddechrau busnes newydd yn fy ardal i yn y 6 mis nesaf | 29.3 | 17.7 | 24.8 | 15.7 | 27.9* |
| Byddai ofn methu yn fy atal rhag dechrau fy musnes fy hun (i'r rheiny sy'n cytuno bod yna gyfleodd da i ddechrau busnes) | 41.2 | 48.9 | 38.0 | 52.1 | 41.4 |

Ffynhonnell – (GEM UK APS 2011).

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn cael ei ystyried yn rhwystr gan rai disgyblion blwyddyn 10. Roedd llawer ohonynt yn dweud bod y sôn cyson am y wasgfa gredyd a rhagolygon economaidd gwael wedi lleihau ar eu brwdfrydedd i ddechrau eu busnes eu hunain. Dywedodd un myfyriwr ei bod hi wedi gweld y straen a'r pwysau sydd ar ei rhieni wrth redeg eu busnes a cheisio rheoli'r llif arian ac ati, a bod hyn wedi ei pherswadio hi i beidio â dechrau ei busnes ei hun yn y dyfodol.

Dywedodd rhai o'r disgyblion blwyddyn 10 ac 13 na fyddai ganddynt syniad sut i ddechrau busnes. Er eu bod wedi ymwneud â rhai gweithgareddau addysg mentergarwch, nid oedd hyn wedi rhoi syniad iddynt o sut fyddai mynd ati i ddechrau busnes 'go iawn'. Roedd eu diffyg gwybodaeth am sut i fynd ati i ddechrau busnes mewn bywyd go iawn yn eu hatal rhag ystyried entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfa realistig.

Dywedodd rhai o'r disgyblion blwyddyn 10 eu bod yn gweld dechrau busnes fel rhywbeth y byddai'n rhaid iddynt ei wneud ar eu pen eu hunain a bod gweithio fel rhan o dîm mewn cwmni neu sefydliad yn apelio mwy.

Nid oedd y syniad o ddechrau busnes neu fenter fach yn apelio at rai o'r disgyblion blwyddyn 13. Roeddent o'r farn bod ennill cyflogaeth mewn cwmni neu sefydliad yn rhoi'r cyfle iddynt fod yn rhan o rywbeth mawr. O'i gymharu, roeddent o'r farn bod dechrau busnes yn golygu bod yn rhan o rywbeth bach ac nad oedd yn rhoi'r un kudos.

Ymysg y rhwystrau eraill roedd disgwyliadau pobl eraill, a allai eu hatal rhag ystyried bod yn entrepreneur. Awgryma hyn fod angen i unrhyw ymdrechion i ddylanwadu ar agweddau pobl ifanc tuag at ddiwylliant mwy entrepreneuraidd ganolbwyntio ar rieni ac eraill sy'n rhoi cyngor i bobl ifanc sy'n gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Roedd rhai yn meddwl bod dechrau busnes eu hunain y tu hwnt i'w galluoedd. Roedd rhai myfyrwyr addysg uwch o'r farn na allent feddwl am unrhyw syniadau da am fusnes ac am y rheswm hwnnw, na fyddent yn ystyried bod yn entrepreneuriaid.

***"Mae angen i chi allu siarad â phobl, i daro bargen ac ennill cwsmeriaid… rhaid i chi ddangos i bawb pwy yw'r bos!"***

***(disgyblion Blwyddyn 7/8)***

***"Fyddai gen i ddim syniad ble i ddechrau."***

***(disgybl Blwyddyn 13)***

## 2.5 Annog ethos entrepreneuraidd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o entrepreneuriaeth a meithrin sgiliau entrepreneuraidd drwy'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae'r adran hon yn edrych ar ba gefnogaeth a dylanwadau eraill fyddai'n annog pobl ifanc yng Nghymru i fabwysiadu a datblygu ethos entrepreneuraidd.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 10 i 13 yn honni eu bod wedi cymryd rhan mewn addysg mentergarwch o ryw fath yn yr ysgol. Nododd y mwyafrif helaeth ohonynt eu bod wedi mwynhau'r profiad, yn arbennig am ei fod wedi'i gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r amgylchedd dysgu traddodiadol, ac yn cynnwys agweddau fel gweithio mewn tîm a datblygu syniad busnes newydd.

Roedd llawer wedi cymryd rhan mewn ymarferion addysg mentergarwch yn ystod blynyddoedd 10 ac 11 ac mewn rhai achosion, roedd wedi y gweithgarwch hwn wedi cyfrannu at eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Nododd rhai o ddisgyblion blwyddyn 13 eu bod yn ystyried bod ymarferion fel hyn yn werthfawr gan eu bod yn cynnig cyflwyniad i egwyddorion busnes sylfaenol, megis cydbwyso refeniw a gwariant. Serch hyn, credent hefyd nad oedd yr ymarferion hyn yn debygol o adlewyrchu amgylchedd busnes go iawn.

Roedd y myfyrwyr AU a gafodd eu cyfweld hefyd yn nodi eu bod wedi ymwneud ag amryw weithgareddau addysg mentergarwch yn yr ysgol. Fodd bynnag, er eu bod wedi mwynhau, nid oeddent o'r farn y bu'r gweithgareddau hyn yn arbennig o ddylanwadol wrth newid eu barn hwy am entrepreneuriaeth.

Nododd nifer o fyfyrwyr blwyddyn 13 y byddent yn croesawu mwy o brofiadau neu addysg mentergarwch yn yr ysgol ar yr adeg hon o'u gyrfa addysgol. Fodd bynnag, er mwyn i hyn fod o werth, byddai angen i'r profiadau hyn fod yn fwy realistig. Byddent yn croesawu mwy o wybodaeth am yr agweddau ymarferol ar sefydlu busnes, gan gynnwys cyflwyniad i faterion penodol megis deddfwriaeth cyflogaeth a chyfreithiau treth. Byddent hefyd yn croesawu enghreifftiau pellach o sut y gallai'r pynciau y maent yn eu hastudio a'r meysydd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt gysylltu â chyfleoedd busnes ar eu llwybrau gyrfa.

Roedd ambell un o'r disgyblion blwyddyn 13 o'r farn bod hyrwyddo entrepreneuriaeth a dechrau busnes yn rhywbeth na ellir ei wneud yn yr ysgol. Yn hytrach, roeddent o'r farn bod ethos entrepreneuraidd yn rhan annatod o bersonoliaeth neu agwedd unigolyn.

Mae safbwyntiau o'r fath yn gyson ag enghreifftiau adnabyddus o entrepreneuriaid llwyddiannus, megis Bill Gates a Steve Jobs, a oedd wedi rhoi'r gorau i'w hastudiaethau yn y coleg, gan awgrymu nad yw entrepreneuriaeth yn rhywbeth y gellid ei ddysgu.

***"Mae pobl yn disgwyl i chi weithio i gwmni neu sefydliad… yn hytrach na dechrau rhywbeth o'r newydd."***

***(myfyriwr Blwyddyn 11)***

***"Mae dechrau busnes yn rhywbeth personol iawn – nid yw syniadau newydd o reidrwydd yn syniadau da"***

***(myfyrwyr AU)***

Fodd bynnag, nid yw enghreifftiau fel y rhain yn nodweddiadol o entrepreneurs yn yr ystyr ehangach. Mae'r dylanwad pwysig posibl y gall addysg mentergarwch ei gael wrth annog 'agweddau, sgiliau a diwylliant entrepreneuraidd,' o lefel cynradd i fyny wedi'i nodi yn adroddiadau ymchwil GEM. Mae adroddiad yn 2009 gan y Global Education Initiative[6] yn nodi bod agweddau ac ymddygiad entrepreneuraidd yn gallu cael eu dysgu a bod cyflwyno addysg entrepreneuriaeth i bobl ifanc drwy eu gyrfa addysgol (o addysg gynradd i addysg uwch) yn 'hanfodol' er mwyn cyflawni hyn.

Ar ben hyn, mae canfyddiadau ymchwil GEM yn awgrymu bod "dysgu drwy wneud," yn fwy effeithiol wrth feithrin sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd na dulliau traddodiadol megis gwersi a darlithoedd. Mae ymchwil GEM ar addysgu entrepreneuriaeth hefyd yn dod i'r casgliad bod dosbarthiadau ysgol sy'n cynnwys modelau rôl ac enghreifftiau o entrepreneuriaeth yn galluogi pobl ifanc i asesu a chydnabod cyfleoedd entrepreneuraidd posibl yn y dyfodol.

Ymddengys felly bod modd i addysg mentergarwch gael dylanwad cadarnhaol wrth annog diwylliant ac ethos entrepreneuraidd ymysg pobl ifanc ar bob cam yn ystod eu haddysg. Awgryma'r canfyddiadau hefyd bod cynnwys enghreifftiau ymarferol a defnyddio modelau rôl o fyd busnes yn gallu bod yn ffactorau dylanwadol pwerus.

Gofynnwyd i'r disgyblion a'r myfyrwyr a oedd yn cymryd rhan yn y trafodaethau ymchwil a oedd y cyngor a'r cyfarwyddyd gyrfaoedd a gawsant wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ystyried entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfaol. Ni allai'r un o'r myfyrwyr gofio unrhyw drafodaethau gydag athrawon neu gynghorwyr gyrfaoedd a oedd yn sôn am entrepreneuriaeth neu ddechrau busnes. Roedd consensws cyffredinol ymysg y disgyblion bod trafodaethau gyrfaoedd yn canolbwyntio mwy ar ddewisiadau byrdymor ac uniongyrchol. Nid oedd dyheadau mwy hirdymor, gan gynnwys y posibilrwydd o ddechrau busnes, yn nodwedd o'r trafodaethau hyn.

Nododd y myfyrwyr addysg uwch bod y cyngor gyrfaoedd a gawsant yn y brifysgol wedi edrych ar ddyheadau tymor hwy ond eu bod yn dueddol o ganolbwyntio ar gyflogaeth yn hytrach na hunangyflogaeth neu entrepreneuriaeth. Roedd y grŵp o'r farn y byddent yn croesawu'r cyfle i drafod ac edrych ar opsiynau hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth ochr yn ochr â'r opsiynau cyflogaeth. Roeddent hefyd o'r farn eu bod bellach wedi cyrraedd oedran ac adeg yn eu haddysg lle byddai trafodaethau am entrepreneuriaeth fel dewis gyrfa yn fwy ystyrlon.

***"Mae (entrepreneuriaeth) yn rhywbeth y mae'n rhaid i chi wneud ar eich liwt eich hun… rhaid bod gennych chi'r awydd i wneud hynny"***

***(myfyriwr AU)***

# 3. Casgliadau

Mae canfyddiadau'r astudiaeth fer hon yn rhoi awgrym o lefel yr agweddau a'r dyheadau entrepreneuraidd ymysg nifer bach o bobl ifanc rhwng 11 a 21 oed yng Nghymru heddiw. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod dyheadau entrepreneuraidd ar eu huchaf ymysg y grwpiau oedran iau a gafodd eu cyfweld (sef disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn bennaf). Roedd y grwpiau oedran hŷn a gafodd eu cyfweld (disgyblion blwyddyn 10 – 13) yn dangos llai o awydd i ddechrau eu busnes eu hunain yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn cydnabod cyfleoedd entrepreneuriaeth, gan gynnwys annibyniaeth, gweithio i'ch hunan, a'r potensial i wneud mwy o arian na ffurfiau eraill o gyflogaeth. Roedd y rhwystrau yn canolbwyntio'n bennaf ar y buddsoddiad ariannol cychwynnol a'r risg o fethu. Roedd rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld hefyd yn cysylltu entrepreneuriaeth a rhedeg busnes â byw bywyd dan bwysau a'r angen i weithio ar eich pen eich hun heb gwmni pobl eraill.

Roedd grwpiau oedran hŷn yn ystyried y rhagolygon economaidd tywyll yn rhwystr i ddechrau eu busnes eu hunain. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r myfyrwyr addysg uwch yn gweld bod diffyg cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn ysgogi entrepreneuriaeth drwy reidrwydd – hyd yn oed oes oedd yn ddim ond carreg sarn tuag at ennill cyflogaeth. I ddisgyblion chweched dosbarth (disgyblion blwyddyn 13) ymddengys mai'r prif rwystr yw diffyg gwybodaeth am sut y gallai'r llwybr gyrfa y maent wedi'i ddewis neu eu maes o ddiddordeb addysgol arwain at gyfleoedd entrepreneuraidd.

Mae'n bosibl bod defnyddio'r termau 'entrepreneur' ac 'entrepreneuriaeth' yn drysu rhai disgyblion. Ymddengys o'r sampl o ddisgyblion a myfyrwyr nad yw llawer o bobl ifanc o reidrwydd yn cysylltu'r term 'entrepreneur' â pherchnogion busnes lleol ac nac ydynt yn meddwl amdano fel rhywbeth y byddai'n bosibl iddyn nhw ei gyflawni. Yn y cyfweliadau, roedd y term yn cael ei gysylltu'n aml â phobl enwog fel yr Arglwydd Sugar a'r 'Dreigiau' ar Dragon's Den.

Byddai'r mwyafrif o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn croesawu profiad ac addysg mentergarwch. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau mentergarwch yn yr ysgol wedi mwynhau'r profiad ac wedi cytuno ei fod wedi'u galluogi i ddysgu egwyddorion busnes sylfaenol. I grwpiau hŷn, yn enwedig disgyblion chweched dosbarth, roedd y syniad o gael 'profiad o fusnes go iawn' yn apelio; yn enwedig os oedd y

profiad hwn yn gysylltiedig â meysydd o ddiddordeb arbennig, e.e. y gyfraith, meddygaeth neu beirianyddiaeth ac ati.

Ymddengys felly bod yna ddiwylliant o entrepreneuriaeth yn bodoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru ond ei fod yn gallu lleihau wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy'r ysgol. Mae ein canfyddiadau yn awgrymu bod addysg mentergarwch yn cael ei gwerthfawrogi gan ddisgyblion ysgol. Yn ogystal, byddai disgyblion ysgol hŷn a myfyrwyr addysg uwch yn croesawu mwy o enghreifftiau go iawn o sut mae busnes yn gweithio. Mae'n bosibl y bydd angen ystyriaethau pellach er mwyn cynnwys entrepreneuriaeth fel opsiwn dilys fel rhan o'r cyngor gyrfa mewn ysgolion a sefydliadau addysg uwch.

# *Nodiadau*

1. Ystadegau Gwladol – Bwletin Ystadegau Ionawr 2012 – Business Demography: Enterprise Births and Deaths, 2010
2. Ffederasiwn Busnesau Bach: Voice of Small Business Index – Wales C3 2012 (paragraff 3)
3. Monitor Entrepreneuriaeth y Byd: Adroddiad Monitro 2011 y Deyrnas Unedig: Jonathan Levie a Mark Hart
4. Mae gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn cyfeirio at y rheiny sydd ar fin dechrau gweithgarwch entrepreneuraidd, a'r rheiny sydd wedi gwneud hynny o fewn y 3 blynedd diwethaf
5. Adroddiad Arbennig Monitor Entrepreneuriaeth y Byd: A Global Perspective on Entrepreneurship Education and Training: Alicia Coduras Martínez, Jonathan Levie, Donna J. Kelley, Rögnvaldur, J. Sæmundsson a Thomas Schøtt (2010)
6. (2009) adroddiad gan Global Education Initiative (GEI) Fforwm Economaidd y Byd (WEF)

**Federation of Small Businesses**
**Ffederasiwn y Busnesau Bach**
*Wales' Leading Business Organisation*
*Mudiad Busnes Blaenllaw Cymru*

© Ffederasiwn Busnesau Bach 2012

Cyswllt:
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
1 Cleeve House
Lambourne Crescent
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GP

Ffôn: 029 2074 7406
E-bost: wales.policy@fsb.org.uk
Gwe: www.fsb.org.uk/wales
@fsb_wales
Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn o'n gwefan drwy http://www.fsb.org.uk/wales/publications

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adfer, neu ei throsglwyddo mewn unrhyw fodd, boed yn electronig, yn fecanyddol, yn llungopi, yn recordio neu fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB). Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y ffeithiau a'r data sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn, serch hyn, ni all yr FSB gymryd unrhyw gyfrifoldeb am wallau neu unrhyw beth sydd wedi'i hepgor na chanlyniadau hynny. Mae erthyglau sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn wedi'u hysgrifennu yn nhermau cyffredinol yn unig. Ni fwriedir iddynt fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r materion dan sylw ac ni ddylid dibynnu arnynt at unrhyw ddibenion penodol. Dylai darllenwyr geisio cyngor proffesiynol priodol o ran cymhwyso unrhyw fater a nodir yn yr erthyglau i'w hamgylchiadau penodol eu hunain.

Cyhoeddwyd Ebrill 2013.